

## Adroddiad Eisteddfod Bethel, Melin y Coed

Mae'n anodd iawn rhagweld be sydd i ddod yn y dyfodol, ac yn sicr, nid oeddwn wedi disgwyl y newid sylweddol a ddilynodd yr Eisteddfod a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2019.

Un o oblygiadau dechrau'r cyfnodau clo ar 23 Mawrth 2020 oedd dwy flynedd heb ein gŵyl ym Melin y Coed. Er hynny, roedd y pwyllgor yn benderfynol bod y traddodiad ddim am basio heb sylw, ac felly, ar ôl derbyn cais gan y diweddar Anwen Hughes, Y Glyn, es ymlaen i greu rhaglen awr o hyd i ddathlu hanes cyfoethog ein heisteddfod erbyn Hydref 2021.

Dwi mwy balch nag erioed fy mod wedi ymdrechu i recordio cantorion, llefarwyr, a sawl cyfweliad. Yn wir, mae un diddorol iawn gan Anti Anwen, lle mae hi'n rhannu atgofion ar ôl bod yn asgwrn cefn i'n dathliad Cymreig am ddegawdau. Erbyn heddiw, mae'n bosib cysidro'r ffilm fel dechrau epoc newydd, a'r trosglwyddo cyfrifoldeb ysgrifennydd i mi ar ôl marwolaeth cyfaill annwyl i gymaint.

Gwyddwn fod rhai wedi cwestiynu a fuasai eisteddfod yn y pentref eto, ond dwi'n falch o adrodd fod Bethel wedi bod yn llawn lliw, lluniau, lleisiau, a lluniaeth ar 1 Hydref 2022!

Yn ogystal â moderneiddio'r rhaglen, a'i chyhoeddi lawr yn Eisteddfod Genedlaethol Tregaron, cefais fendith cyd-aelodau'r pwyllgor i ddiwygio'r hen gystadleuaeth ysgrifennu i blant Bethel, i gael cystadlaethau ysgrifennu a chelf i blant Gofalaeth Bro Nant Conwy. Am lwyddiant!

'Roedd mynydd o waith i Eurgain Ebrill Owen (ysgrifennu) ac Ann P Williams (celf), i feirniadu. Fel nododd y ddwy feirniad, hoffwn ddiolch o galon i bawb sydd wedi cystadlu, ac i'r athrawon a rhieni sydd wedi sicrhau bod y disgyblion yn cymryd y cyfle i fod yn rhan o'r eisteddfod.

I roi blas i chi ar boblogrwydd yr adrannau ysgrifennu a chelf i blant, roedd 39 poster yn hyrwyddo cwpan y byd pêl droed 2022 Qatar, 68 llun o anifail anwes a disgrifiad byr ohonno, ac 88 o luniau dail yr Hydref! Yn hwyr noson gynt, oeddwn i a thîm bach yn brysur yn addurno'r capel a'r festri gyda'r holl waith. Debyg iawn ein bod gyda mwy o waith arddangos na Ffin y Parc!

Nid oedd y pwysau gwaith yn ysgafnach ar y beirniad adrodd, barddoniaeth, a llenyddiaeth chwaith: Beryl Griffiths. Er enghraifft, roedd 25 wedi cystadlu ar y limrig! Yr ymgeisydd gyda'r ffug enw, Betsan Moses, gipiodd y wobr:

*"Yn sicr ni fyddaf byth eto  
Yn myned i'r brifwyl i gampio,  
Dim trydan, dim dŵr,  
Dim cawod bid siŵr,  
A'r toiled, 'roedd hwnnw 'di blocio".*

Tybiaf y bydd llawer a fentrodd lawr i Dregaron wedi profi'r problemau a gofnodwyd gan Myfanwy Roberts! Llongyfarchiadau mawr iawn iddi hi, Gwilym Bryniog am ddod i'r brig ar yr Englyn, Emrys Williams ar y Delyneg, Carys Briddon ar yr Ysgrif, Llywela Edwards ar y Gerdd neu Stori Fer dan 25 oed, a Iona Evans ar y Llên Micro.

Mae trydydd darn o ryddiaith y Llen Micro buddugol yn darllen:

*"Sbeisys a chyri a sawsiau poeth wedi eu gweini gyda photelaid o Rioja oedd ar y fwydlen pan  
briododd hi a Jac.*

*Erbyn hyn mae'r ddau yn fodlon rhannu uwd a chaws ar dost a Horlicks".*

Nid bwyd a diod egsotig oedd yn festri'r Eisteddfod chwaith, ond y gorau o geginau'r Cymry! O dan arweiniad Janet Jones ac Eleanor Roberts, fe gafwyd gwledd ym Melin y Coed. O'r lobsgôws i'r sgon, wnesi yn sicr fwynhau'r bwyd oedd ar gael, a braf oedd clywed eraill yn canmol hefyd.

Balch iawn oeddwn i weld pobl o bob cenhedlaeth yn cystadlu ar lwyfan y capel, a cafodd y gynulleidfa hefyd beth adloniant gan yr arweinyddion, Y Parch Owain Davies, Alwyn Hughes, Eurig Williams, Gwilym Bryniog, a hyd yn oed fi, yr ysgrifennydd!

Y cyntaf i fentro oedd Gruff Jones, Melin y Coed, gyda jôc ddifyr iawn! Dyma ganlyniadau cyfarfod y pnawn:

- Unawd Meithrin a Derbyn: 1af i Megan Davies;
- Adrodd Bl 1 a 2: 1af i Gruff Jones;
- Adrodd Bl 3 a 4: 1af i Meira Eden;
- Adrodd Bl 7 i 9: 1af i Malena Aled;
- Unawd Bl 7 i 9: 1af i Gwydion Alun; 2il i Malena Aled;
- Unawd Cerdd Dant Bl 7 i 9: 1af i Gwydion Alun;
- Unawd Alaw Werin Bl 7 i 9: 1af i Gwydion Alun;
- Unawd ar unrhyw offeryn cerdd Bl 7 i 9: 1af i Malena Aled;
- Parti Plant dan 15 oed: 1af i Ysgol Llanddoged;
- Côr Plant dan 15 oed: 1af i Ysgol Llanddoged.

Er bod y niferoedd roedd yn cystadlu yn isel, oedd y safon yn arbennig. Balch iawn oeddem hefyd o weld y ddau dlws newydd yn cael eu hennill: Tlws Coffa Catherine Jones (Kit Carneddau) yn mynd i Malena Aled, a Chwpan Coffa Anwen Hughes, Y Glyn, i Ysgol Llanddoged.

Cafwyd cyngerdd yng nghyfarfod yr hwyr, gyda lleisiau Côr Melin y Coed ac Ensemble CantiLena yn llenwi'r capel! Hoffwn ddiolch yn arbennig i Gwilym Bryniog a Gwenno Evans am roi eu hamser i ddysgu'r côr i berfformio emyn-dôn fuddugol Eisteddfod Genedlaethol Tregaron, ac i Angharad Ellis am ei gwaith diflino gyda pobl ifanc ein cylch yn CantiLena. Yn sicr, roedd gan y beirniad cerdd, Leah Owen, dasg anodd penderfynu rhwng y ddau barti!

Dyma ganlyniadau cyfarfod yr hwyr:

- Unawd Bl 10 i 19 oed: 1af i Lea Williams; 2il i Cari Llywelyn;
- Adrodd Digri: 1af i Rhys Jones;
- Unawd Cerdd Dant: 1af i Lea Williams;
- Prif Adroddiad: 1af i Rhys Jones;
- Unawd Gymraeg: 1af i Lea Williams; 2il i Trefor Williams; 3ydd i Heidi Mason;
- Cân Werin: 1af i fi (Mostyn Jones);
- Unrhyw Ddeuawd Gymraeg: 1af i Lea Williams a Iona Williams;
- Canu Unrhyw Emyrn dros 60 oed. Nid oedd cystadleuydd, felly fe roddwyd gwahoddiad i unrhyw un, yn cynnwys rhai o dan 60, i ddod i'r llwyfan i ganu. 1af i Iona Williams; 2il i fi (Mostyn Jones);
- Her Unawd: 1af i Heidi Mason; 2il i Trefor Williams;
- Wythawd: 1af i Ensemble CantiLena;
- Parti Cymysg: 1af i Ensemble CantiLena; 2il i Côr Melin y Coed.

Rhoddyd diolchiadau meddylgar iawn gan Huw Roberts, Cadeirydd, i gloi'r Eisteddfod, a hoffwn i hefyd ganmol ein cyfeilyddion, Ruth Owen a Tudur Jones, am fod mor fodlon i chwarae ystod eang o gerddoriaeth, ac i Glenda Williams am ei gwaith caled wrth fy ochr drwy'r dydd yn y set fawr!

Fel dwi'n gobeithio ein bod i gyd yn gallu cytuno, mae ein Heisteddfod wedi goroesi cyfnod caled, a sylfaen cryf wedi ei greu ar gyfer bwrw mlaen i'r dyfodol.

Fedraf ddim meddwl am ffordd well i gloi, na dyfynnu englyn buddugol Gwilym Bryniog, sydd yn recordio addewid Eurig Williams, Dylan Roberts, a fi i'r Eisteddfod:

*"Y mae alaw eto'm Melin-y-Coed,  
Y mae cân i'w meithrin,  
A blys wedi cyfnod blin,  
Ar hogia ydi'r egin.  
Gobeithiol."*

Diolch o galon,

Mostyn Jones, Ysgrifennydd